



**Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

**The Commission on Justice in Wales**

---

## **Cyngor Cyfraith Cymru**

Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein hadroddiad ar 24 Hydref, ond cyn Cynhadledd Cymru'r Gyfraith ar 11 Hydref, a gan fod y syniad wedi ei gynnig gyntaf yng nghynhadledd 2017, rydym yn cyhoeddi ein hargymhelliad ynghylch Cyngor Cyfraith Cymru.

Argymhellwn y dylai Cyngor Cyfraith Cymru gael ei sefydlu er mwyn hyrwyddo buddiannau addysg gyfreithiol ac ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru, er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei haddysgu yng Nghymru yn briodol, a helpu myfyrwyr gyda'u haddysg a'u hyfforddiant fel ymarferwyr y dyfodol.

### **Ein cynnig a'i gyhoeddi**

1. Yn y rhan hon, trown at sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru. Gan nad oes angen newid y drefn ddatganoli bresennol mewn unrhyw ffordd i wneud hyn, ac am fod angen bwrw ati i sefydlu Cyngor o'r fath, gwnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Hydref 2018. Cawsom nifer o ymatebion.
2. Ar ddechrau Hydref 2019, gwnaethom gyhoeddi'r rhan hon o'n hadroddiad gan nad oedd yn amodol ar unrhyw fater arall rydym yn ei ystyried, ac nid yw o reidrwydd yn gofyn i'r Cynulliad na Llywodraeth Cymru gymryd unrhyw gamau. Roedd yn bwysig iawn, ac mae'n dal i fod yn bwysig iawn, bwrw ati i wneud hyn o ystyried y materion y mae angen eu datrys mewn modd amserol.

### **Manylion Cyngor Cyfraith arfaethedig Cymru**

3. Yn ystod Cynhadledd Cymru'r Gyfraith yn 2017, galwodd yr Arglwydd Lloyd-Jones am sefydlu Athrofa Cyfraith Cymru er mwyn hyrwyddo astudio cyfraith Cymru ac

osgoi dyblygu gwaith. Ym marn yr Arglwydd Lloyd-Jones, byddai gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth gydgyssylltu'r Cyngor, gydag ysgolion y gyfraith yng Nghymru, y cyrff proffesiynol a'r Coleg Barnwrol yn cyfrannu ati. Hefyd, gwelodd rôl i Gymdeithas Ddysgedig Cymru, Sefydliad Cymru'r Gyfraith a chyswllt agos â Chomisiwn y Gyfraith o ystyried ei gyfrifoldebau am ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru.

4. Mae'r angen i'r proffesiynau ac ysgolion y gyfraith gydweithio wedi'i gydnabod ers amser hir yn yr Alban. Adlewyrchir hyn yn y Cyd-bwyllgor Sefydlog ar gyfer Addysg Gyfreithiol yn yr Alban (JSC) a sefydlwyd ers cryn amser. Mae'n gorff anstatudol sy'n dwyn ynghyd bobl â rôl allweddol (y farnwriaeth, y Bar, Cymdeithas y Cyfreithwyr, ysgolion y gyfraith ac aelodau lleyg) mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant cyfreithiol yn yr Alban. Nod JSC yw hyrwyddo buddiannau addysg gyfreithiol yn y byd academiaidd ac ymhlith y proffesiynau cyfreithiol. Ni all ei gwneud yn ofynnol i unrhyw sefydliad wneud unrhyw beth, ond mae ganddo rym gwleidyddol. Yn dilyn ei drafodaethau â Llywodraeth yr Alban, ni chafodd yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr ei gyflwyno yn yr Alban. Ni chaiff JSC ei ariannu gan y Llywodraeth, a Chyfadrann y Gyfraith Prifysgol Caeredin sy'n darparu ei adnoddau gan fwyaf, gan gynnwys ystafell gyfarfod, ei ysgrifenyddiaeth a'i wefan.
5. Fodd bynnag, bydd Cyngor y Gyfraith a gynigiwn ar gyfer Cymru yn mynd ymhellach nag addysg gyfreithiol. Fel y nodir yn y papur ymgynghori, byddai sefydliad tebyg yng Nghymru yn rhoi llais i Gymru'r gyfraith drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru, sicrhau bod adnoddau cyfreithiol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a helpu ysgolion y gyfraith yng Nghymru i roi'r addysg a'r hyfforddiant angenrheidiol i'w myfyrwyr er mwyn iddynt ffynnu yn eu gwaith. Gan adeiladu ar waith da Sefydliad Cymru'r Gyfraith, dylai'r Cyngor fod yn gorff mantell sy'n rhannu adnoddau, yn cefnogi hyfforddiant ar gyfraith Cymru ar gyfer y farnwriaeth a'r proffesiynau, ac yn sicrhau cydweithio. Dangosodd yr ymatebion i'n papur ymgynghori fod cefnogaeth eang i Gyngor o'r fath, gyda sylwadau manwl ar ei gyfansoddiad a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer ysgrifenyddiaeth.
6. Yn sgil yr ymgynghoriad, credwn y dylai Cyngor y Gyfraith gynnwys uwch-farnwr Cymreig, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, tri chynrychiolydd o'r proffesiwn cyfreithiol, penaethiaid ysgolion y gyfraith, cynrychiolydd lleyg â phrofiad o faterion

busnes a chyfreithiol, y Cwnsler Cyffredinol ac un aelod yr un o Sefydliad Cymru'r Gyfraith, Comisiwn y Gyfraith a'r Coleg Barnwrol. Yn ein barn ni, dylai aelodaeth y Pwyllgor a nodwyd ym mharagraff 7 fod yn gytbwys a bod mor fach â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai penaethiaid Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru gael eu cynrychioli gan ddau o'u plith, ond gellir gadael iddyn nhw ac Uwch-farnwr Cymru gytuno ar eu cyfranogiad. Dylid hefyd gynnal cyfarfod blynyddol sy'n cynnwys cynrychiolaeth ehangach o bawb sydd â diddordeb mewn addysg gyfreithiol a chyfleoedd datblygu proffesiynol o fewn y sector cyfreithiol.

7. Disgwyliwn i bwyllgor bach o ryw bump i saith aelod gael ei ffurfio a fyddai'n cyflawni swyddogaethau Cyngor y Gyfraith. Dylai aelodaeth y Cyngor a datblygiad posibl cyrff arbenigol gael eu hadolygu'n barhaus.
8. Dylai fod gan Gyngor y Gyfraith ysgrifenyddiaeth ddynodedig sy'n datblygu ac yn cynnal blaenraglen waith glir. Dylai'r Ysgrifenyddiaeth fod yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd a chyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau a gaiff eu llunio gan y Cyngor. Byddem yn disgwyl iddi gael ei hariannu ar y cyd gan ysgolion y gyfraith a'r proffesiynau.
9. Dylai Cyngor y Gyfraith gael ei sefydlu cyn gynted â phosibl.

**2 Hydref 2019**